# Datblygu a gweithredu strategaethau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chi’n datblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau sy’n codi ymwybyddiaeth o natur ac effaith cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd y strategaeth a’r cynlluniau y byddwch yn eu datblygu yn cynnwys pa gamau y gellir eu cymryd i fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol, a’u hatal. Mae’n cynnwys eich gallu i weithredu cynlluniau a monitro effaith cynlluniau y cytunwyd arnynt yn erbyn amcanion a nodwyd yn y strategaeth.

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi amcanion sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer mentrau codi ymwybyddiaeth arfaethedig sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol eich sefydliad
2. nodi a blaenoriaethu cynulleidfaoedd targed yn addas ar gyfer mentrau codi ymwybyddiaeth arfaethedig
3. nodi opsiynau cyfathrebu effeithiol a all gyflawni amcanion codi ymwybyddiaeth
4. nodi unrhyw risgiau a all fod yn gysylltiedig ag opsiynau codi ymwybyddiaeth sy'n cael eu hystyried
5. ceisio cyngor arbenigol gan eraill i lywio strategaethau a chynlluniau ar gyfer codi ymwybyddiaeth
6. archwilio cyfleoedd am gysylltiadau strategol â rhanddeiliaid eraill a all gefnogi amcanion codi ymwybyddiaeth
7. cytuno ar strategaeth codi ymwybyddiaeth gyda rhanddeiliaid a chydweithwyr yn unol ag adnoddau sydd ar gael
8. nodi dulliau a mesurau perfformiad allweddol i fonitro a gwerthuso'r strategaeth codi ymwybyddiaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. datblygu cynlluniau i weithredu strategaethau
10. cytuno gyda chydweithwyr ar y strategaethau a'r cynlluniau i'w datblygu
11. cyfleu strategaethau a chynlluniau cytunedig i randdeiliaid a chydweithwyr
12. gwneud addasiadau rhesymol i gynlluniau ac adnoddau i gynorthwyo â chyflawni amcanion strategol.
13. cofnodi gweithgareddau ac effeithiau cynlluniau mewn ffordd a fydd yn llywio mentrau yn y dyfodol.
14. cynnal cofnodion cywir a chyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt.
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. rôl, cylch gwaith, amcanion a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais rhywiol
5. sut mae gwasanaethau asiantaethau a sefydliadau eraill yn perthyn i'r gwasanaethau y mae eich sefydliad chi yn eu darparu
6. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
7. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
8. effaith cam-drin ar bawb y mae'n effeithio arnynt
9. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio, a ffynonellau'r wybodaeth a'r cymorth hwnnw
10. mentrau cenedlaethol a lleol perthnasol a'u heffaith ar gyfer datblygu strategaeth sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth
11. pwysigrwydd nodi cynulleidfaoedd targed ar gyfer mentrau codi ymwybyddiaeth
12. gwahanol grwpiau o bobl sy'n gallu elwa o fentrau codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd
13. y prif ddulliau a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais rhywiol a'u cryfderau a'u gwendidau cymharol
14. rhwystrau cyffredin rhag dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch cam-drin domestig a thrais rhywiol
15. ffactorau i'w hystyried wrth ddatblygu strategaeth a chynlluniau codi ymwybyddiaeth
16. mathau o risg sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a thrais rhywiol a sut i leihau'r rhain
17. sut i ddatblygu amcanion strategol, camau gweithredu ac atebolrwydd
18. sut i ddatblygu cynlluniau a chyllidebau cysylltiedig
19. pwysigrwydd nodi mesurau perfformiad ar gyfer mentrau codi ymwybyddiaeth

20. pwysigrwydd ymgynghori ag eraill yn ystod datblygiad strategaeth a chynlluniau, a sut i wneud hyn
21. pwysigrwydd cyflwyno cynlluniau o fewn cyllidebau cytunedig a sut i gyflawni hyn.
22. ffyrdd o fonitro gweithgareddau yn erbyn cynlluniau a chyllidebau.
23. materion cyhoeddus a moesegol sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth ynghylch cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**

Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**

Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**

Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso.

SFJBH101

Datblygu a gweithredu strategaethau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais rhywiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ BH101 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | rhywiol; dioddefwr; goroeswr; datblygu; cynlluniau; effaith; mynd i'r afael; cyfleoedd; amcanion; atal; strategaeth; risg; |